
Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Adroddiad Blynyddol y Gymraeg

# 1 Awst 2024 – 31 Gorffennaf 2025



*Mae Fersiwn Saesneg o'r adroddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Brifysgol ac mae copïau caled yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gael mewn swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.*

# Cyflwyniad

Mae Prifysgol Wrecsam o dan ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y cânt eu gosod gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fel darparwr addysg, mae gan y Brifysgol hefyd ddyletswydd i hyrwyddo defnydd o'r iaith, nid yn unig ymhlith ein gweithwyr a'n myfyrwyr ein hunain, ond hefyd gyda'n rhanddeiliaid allanol eraill.

Mae cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn cael ei monitro trwy strwythur pwyllgor ffurfiol y Brifysgol: Pwyllgor Monitro'r Gymraeg sy'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn. Cyfrifoldeb Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Brifysgol yw monitro cydymffurfiaeth, ac mae hyrwyddo defnydd o'r iaith a'i hymgorffori yng nghwricwlwm ac arferion addysgol y Brifysgol yn nwylo'r Pennaeth Datblygu Cyfrwng Cymraeg.

Petai Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn am wybodaeth ynghylch sut rydym yn cydymffurfio â'r safonau, mae gennym ddyletswydd i'w darparu, ac rydym wedi parhau i ymgysylltu'n adeiladol â'r Comisiynydd dros gyfnod yr adroddiad hwn, ynghylch ein hymdrechion i hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg.

Eleni yw ail flwyddyn gweithredu ein Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg a'r Cynllun Gweithredu, CYFLE, a gymeradwywyd y llynedd gan Fwrdd Academaidd y Brifysgol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. CYFLE yw'r strategaeth gyntaf o'i bath yn y Brifysgol, gan ganolbwyntio ar wella, darparu a datblygu'r Gymraeg, a thanlinellu ein hymrwymiad parhaus i'w defnyddio a'i hyrwyddo. Mae ei hamcanion yn parhau i gael eu harwain gan yr egwyddor bod y Gymraeg ar gyfer pawb yn y Brifysgol – staff, myfyrwyr, ymwelwyr, a'r gymuned ehangach.

Yn ystod yr ail flwyddyn hon, rydym wedi gweld datblygiadau nodedig yn y ddarpariaeth staffio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn meysydd pwnc dethol, ochr yn ochr ag ehangu ein portffolio Sgiliau Cymraeg. Mae adnoddau pwrpasol hefyd wedi'u rhoi ar waith i ddarparu cefnogaeth academaidd i fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan staff a myfyrwyr bellach fwy o gyfleoedd i ymgysylltu â'r iaith drwy fentrau fel llwybrau Cymraeg yn y Gweithle i fyfyrwyr a'r cynllun Cymraeg yn y Gwaith i staff, gyda chefnogaeth penodi Tiwtor Sgiliau Cymraeg llawn amser.

Eleni hefyd, gwelwyd y Brifysgol yn paratoi ar gyfer ymweliad yr Eisteddol Genedlaethol â Wrecsam ym mis Awst, gan ffurfio Grŵp Llywio'r Eisteddfod i arwain y paratoadau. Ochr yn ochr â hynny, lansiodd y Brifysgol ei Gweledigaeth a'i Strategaeth newydd ar gyfer 2030, sy'n gosod Iaith, Treftadaeth a Diwylliant Cymru fel thema gyffredinol ar draws yr holl bileri strategol. Mae'r datblygiad arwyddocaol hwn wedi arwain at newid yn CYFLE, gan ehangu ei chwmpas i strategaeth Gymraeg ehangach sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau hirdymor y Brifysgol.

Yn 2025, lansiodd Prifysgol Wrecsam ei gweledigaeth a'i strategaeth newydd ar gyfer 2030—cam beiddgar a chynhwysfawr i sicrhau bod y brifysgol yn parhau i dyfu, arloesi ac ysbrydoli. Gan adlewyrchu ei gwreiddiau Cymreig a'i huchelgais fyd-eang, mae'r strategaeth hon yn gosod y brifysgol fel sefydliad dinesig modern sy'n gwasanaethu ei chymunedau lleol ac yn cyfrannu'n weithredol at heriau byd-eang.

Yn dilyn ein gweledigaeth a'n strategaeth newydd fel Prifysgol, rydym bellach wedi ail-leoli CYFLE gyda gweledigaeth ehangach ar gyfer y Gymraeg ym Mhrifysgol Wrecsam. Mae

CYFLE bellach yn canolbwyntio nid yn unig ar ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond hefyd ar ddatblygu ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, rydym yn awyddus i gyfrannu at y gweithlu dwyieithog yng Nghymru trwy alluogi myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i fyw a gweithio'n hyderus yng Nghymru.

**Yr Athro Paul Davies – Dirprwy Is-Ganghellor**

## Cydymffurfiaeth

Disodlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth hon, mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfreithiol cyfartal, ac ni ddylid trin y naill na'r llall yn llai ffafriol. O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys annog gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a'i gwneud yn ofynnol bod darpariaeth i sicrhau bod y Gymraeg yn hygyrch i'r cyhoedd.

Yn unol ag Adran 44 o Fesur 2011, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg hysbysiad cydymffurfio ar 29 Medi 2017 i'r Brifysgol, yn cynnwys 178 o safonau unigol y mae'n ofynnol i'r Brifysgol gydymffurfio â nhw o dan y themâu canlynol; darparu gwasanaethau, gweithredol, llunio polisïau a chadw cofnodion.

Mae'r Safonau'n manylu ar gyfrifoldebau'r Brifysgol o ran darparu gwasanaethau dwyieithog i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nod y safonau yw:

- Gwneud yn glir i'r Brifysgol beth yw ei dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg,
- Gwneud yn gliriach pa wasanaethau y gall myfyrwyr, staff a'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg ddisgwyl eu derbyn yn y Gymraeg gan y Brifysgol
- Gwneud gwasanaethau Cymraeg yn fwy cyson a gwella eu hansawdd.

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg ddyletswydd statudol i fonitro cydymffurfiaeth sefydliadau â Safonau'r Gymraeg, ac ymchwilio i gwynion a thorri cydymffurfiaeth. Mae o fewn eu pŵer i osod camau gorfodi, dyfarniadau llys sirol a dirwyon.

Mae'n ofynnol i'r Brifysgol gyhoeddi ei hadroddiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg erbyn diwedd mis Ionawr bob blwyddyn a'i gyhoeddi'n briodol.

## Gweithredu Safonau'r Gymraeg

### Pwyllgor Monitro'r Gymraeg (PMG)

Sefydlwyd pwyllgor Monitro'r Gymraeg gan y Dirprwy Is-Ganghellor ym mis Awst 2018 (yn dilyn diddymu'r Grŵp Monitro'r Gymraeg blaenorol, a oedd yn anffurfiol) ac ar hyn o bryd mae Paul Davies, y Dirprwy Is-Ganghellor presennol, yn cadeirio. Mae'r pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r uwch reolwyr a staff gweithredol ar lefelau priodol. Mae'n bwyllgor ymgynghorol

nad oes ganddo bwerau gwneud penderfyniadau dirprwyedig ac mae'n Is-bwyllgor o Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor. Mae gan y Dirprwy Is-Ganghellor arweinyddiaeth strategol ar gyfer Safonau'r Gymraeg o safbwynt cydymffurfio ac iaith. Y Pennaeth Datblygu Cyfrwng Cymraeg a Hyrwyddwr y Gymraeg y Brifysgol sy'n gyfrifol am weithredu'r ddarpariaeth Gymraeg o ddydd i ddydd. Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth sy'n gyfrifol am weithredu cydymffurfiaeth y Gymraeg o ddydd i ddydd. Y Dirprwy Is-Ganghellor sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am gydymffurfiaeth y Brifysgol â safonau'r Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith bob blwyddyn Academaidd yn unol â'i Gylch Gorchwyl.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei adolygu gan bwyllgorau canlynol y Brifysgol, y mae eu Cylch Gorchwyl yn cynnwys gofyniad i fonitro cydymffurfiaeth y Brifysgol â Safonau'r Gymraeg:

- *Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg*
- *Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor*
- *Pwyllgor Pobl a Diwylliant*

Rôl a swyddogaeth PMG yw cefnogi a hwyluso cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ledled y Brifysgol, gan sicrhau'r canlynol:

1. **Polisïau a Gweithdrefnau** - sefydlir polisïau a gweithdrefnau perthnasol i gydymffurfio â deddfwriaeth, goruchwylir eu gweithrediad a chaiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau eu diweddaru'n rheolaidd.

2. **Rheoli Risg** - caiff gweithrediad strategaethau/polisïau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg ei fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth, a bod y Brifysgol yn cadw cofnodion amserol ac adroddiadau cynhwysfawr yn unol â Hysbysiad Cydymffurfio'r Brifysgol.

3. **Ymarfer** - mae'r holl ymarfer yn hyrwyddo ac yn meithrin diwylliant o wella ansawdd a rhannu arfer da o ran y Gymraeg, gan sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd uchel ar gael ar adeg darparu gwasanaethau. Yn ogystal, dylai unrhyw ganllawiau, cefnogaeth a chymorth angenrheidiol ddarparu eglurder i sicrhau'r dehongliad cywir o Safonau perthnasol a sut y gall ymarfer y Brifysgol gydymffurfio â nhw.

4. **Cyfathrebu a datblygu staff** – cynhelir datblygiad a goruchwyliaeth rhaglen gyfathrebu a hyfforddi i godi ymwybyddiaeth o fewn y Brifysgol, a chyda phobl eraill yn ôl yr angen, ynghylch pob agwedd ar y Gymraeg, gan ddarparu cyngor priodol mewn ymateb i ddigwyddiadau ac achlysuron a chefnogi staff i ddatblygu'r sgiliau a'r ymddygiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth.

5. **Cwynion** – derbynnir adroddiadau, a gwneir argymhellion ar gamau gweithredu yn dilyn unrhyw gwynion (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Safonau'r Gymraeg), a lle cymerir neu argymhellir camau unioni priodol, a bod y camau gweithredu hyn yn cael eu monitro.

O Flwyddyn Academaidd 25/26 ymlaen, mae'r Pwyllgor wedi'i ailenwi'n Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg, gan amlygu ymrwymiad y Brifysgol i'r Gymraeg.

## Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

### Gohebiaeth Ysgrifenedig

Pan nad yw dewis iaith unigolyn y cysylltir ag ef yn hysbys, neu wrth gyfathrebu â grwpiau o bobl (er enghraifft, trwy gylchlythyrau e-bost), dylid cyhoeddi pob gohebiaeth gychwynnol yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg ar y chwith neu ar y brig fel ei bod yn ymddangos yn gyntaf. Lle mae'r dewis iaith yn hysbys, dylid cynnal cyfathrebiadau yn yr iaith honno. Os yw unigolyn yn ysgrifennu at y Brifysgol gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg, rhaid darparu ymateb dwyieithog.

Mae papurau pennawd y Brifysgol yn cynnwys datganiad yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cadarnhau na fydd defnyddio'r Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi wrth ymateb.

Mae llofnodion a/neu droedynnau e-bost yn nodi bod croeso i ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac nad yw amseroedd ymateb yn wahanol rhwng yr iaith lle mae gweithwyr yn siaradwyr rhugl neu'n ddysgwyr. Mae llofnodion hefyd yn cynnwys logos Cymraeg yn y Gweithle, teitlau swyddi dwyieithog, a manylion cyswllt dwyieithog.

Darperir canllawiau ynghylch cydymffurfiaeth â'r Gymraeg i bob aelod o staff yn ystod eu cyfnod cynefino gorfodol, sy'n cynnwys sut i gynhyrchu llofnod Cymraeg a sut i osod negeseuon allan o'r swyddfa yn y Gymraeg. Dosberthir gwybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth â'r Gymraeg i staff drwy gydol y flwyddyn hefyd, trwy ein cylchlythyr campws mewnol.

### Galwadau Ffôn

Mae prif rif ffôn y Brifysgol yn cysylltu â system ffôn awtomataidd sy'n cyfarch y galwr yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn cael ei siarad yn gyntaf. Wedi hynny, mae'r system yn caniatáu i'r galwr ddewis a ydynt am siarad â gweithiwr yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Bydd galwadau i un o gampysau eraill y Brifysgol yn Llanelwy neu Laneurgain hefyd yn cael eu hateb yn ddwyieithog gan aelod o'r dderbynfa.

Cyfarwyddir gweithwyr ar sut i ddelio â galwadau er mwyn sicrhau bod galwyr yn derbyn y gwasanaeth gorau yn eu dewis iaith.

### Cyfarfodydd

Wrth drefnu cyfarfodydd gyda'r rhai sy'n allanol i'r Brifysgol, gofynnir i'r rhai sy'n bresennol gadarnhau eu dewis iaith cyn y cyfarfod, a chynigir cyfieithu ar y pryd os oes angen.

Mae'r Brifysgol yn cynnal ei chyfarfodydd mewnol yn Saesneg; fodd bynnag, mae'n darparu cyfieithu ar y pryd llawn ar gais.

Darperir unrhyw gofnodion a gyhoeddir ar wefan y Brifysgol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## Arwyddion, Hysbysiadau, Cyhoeddusrwydd a Deunyddiau Hyrwyddo, Dogfennau, a Ffurflenni

Mae deunyddiau Prifysgol a gynhyrchir ar gyfer myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol naill ai'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg naill ai wedi'i lleoli ar y chwith neu ar y brig fel ei bod yn ymddangos yn gyntaf, neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae fersiynau Saesneg yn unig yn hysbysu'r darllenydd bod y deunydd hwnnw hefyd yn y Gymraeg.

## Gwefan a Chyfryngau Cymdeithasol

Mae gwefan y Brifysgol a'r gwasanaethau gwe cysylltiedig yn gwbl ddwyieithog, a gall defnyddwyr newid yn hawdd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar Bluesky, Facebook, LinkedIn, YouTube. Mae pob postiad a neges yn cael eu postio ar ddwy dudalen ar wahân, un yn y Gymraeg a'r llall yn Saesneg. Bydd y ddwy dudalen yn adlewyrchu ei gilydd, ac ni chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ymatebir i bob neges cyfryngau cymdeithasol yn iaith yr ymholiad gwreiddiol. Mae fideos ar sianel YouTube y Brifysgol yn cael eu postio yn y Gymraeg a'r Saesneg lle bynnag y bo modd, a darperir isdeitlau yn y Gymraeg a'r Saesneg pan fydd cyfwelai yn siarad mewn un iaith.

## Polisïau a Gweithdrefnau

Mae'n ofynnol i bob polisi a gweithdrefn a gyflwynir i'w cymeradwyo gynnwys Ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg, i ddangos na fyddai cyflwyno'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny yn niweidiol i'r Gymraeg.

Mae gan y Brifysgol hefyd Bolisi’r Gymraeg a adolygir bob 3 blynedd neu pan fydd newidiadau i ddeddfwriaeth.

Mae pob Polisi, gweithdrefn, neu ddogfennaeth a uwchlwythir i wefan y Brifysgol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## Cwynion

Roedd y Brifysgol wedi cael un gŵyn anffurfiol yn 2024/25, yn ymwneud â diffyg cortynnau gwddf Cymraeg yn ystod diwrnod agored.

Hefyd, roedd y Brifysgol wedi cael un gŵyn ffurfiol yn 2024/25; roedd hyn yn ymwneud â phostiad cyfryngau cymdeithasol ar Facebook a LinkedIn lle darganfuwyd camgyfieithiad.

## Gwiriadau Mewnol ar Hap

Mae Tîm Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth y Brifysgol yn cynnal gwiriadau rheolaidd ar hap o arwyddion y tu mewn a'r tu allan i safleoedd y brifysgol. Hysbysir cydweithwyr o fewn adrannau am unrhyw faterion a nodwyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cywiro. Mae Pwyllgor Monitro'r Gymraeg yn cael gwybod am fanylion y rhain a chamau dilynol.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, nodwyd nifer o faterion a thynnwyd sylw cydweithwyr at y rhain. Roeddent yn cynnwys:

- Roedd gan rai ymatebion awtomatig allan o'r swyddfa negeseuon Saesneg yn unig, neu negeseuon dwyieithog lle nad oedd y testun Cymraeg yn cyfateb i'r testun Saesneg, neu lle nad oedd y testun Cymraeg wedi'i fformatio'n debyg i'r testun Saesneg. Mae'r Brifysgol bellach wedi anfon nifer o negeseuon e-bost at yr holl staff i'w hatgoffa o bwysigrwydd cydymffurfiaeth â'r Gymraeg ac yn eu tywys at y templedi sydd ar gael ar fewnrwyd y staff.

- Arddangoswyd rhai posteri ar Safleoedd y Brifysgol nad oeddent yn ddwyieithog. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'r tîm cydymffurfio yn cysylltu â chreawdwr y poster ac yn gofyn am greu fersiwn Gymraeg. Os na fydd yn gwneud hyn, bydd y poster Saesneg yn unig yn cael ei dynnu i lawr.

- Roedd rhai dogfennau ar wefan y Brifysgol wedi'u cadw mewn gwahanol fformatau, fel Microsoft Word a PDF.

Nodwyd y themâu hyn drwy wiriadau mewnol ar hap, fel adolygu'r wefan a'r tudalennau cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig, galwadau dirgel i'r tair derbynfa ar y campws, ac adolygiadau o bosteri a arddangosir o amgylch adeiladau'r campws.

Rydym hefyd yn gweld tuedd gadarnhaol o staff yn rhoi gwybod am achosion lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin mor ffafriol â'r Saesneg ac yn cynnig canllawiau ar sut i gael mynediad at wybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth â'r Gymraeg.

## Recriwtio

Mae'r Brifysgol yn parhau i werthuso'r gofyniad am sgiliau Cymraeg yn ystod y cam ymgeisio am swydd wag, ac mae rheolwyr recriwtio yn cael eu cefnogi i ystyried y gofyniad am sgiliau siarad Cymraeg gan eu Partner Busnes Adnoddau Dynol. Mae'n orfodol i'r Rheolwr Recriwtio nodi yn ystod y cam ymgeisio am swydd wag a yw sgiliau Cymraeg yn Hanfodol neu'n Ddymunol ar gyfer pob cais.

Gweithredwyd gwelliant pellach i'r system recriwtio yn 2023/24 sy'n sicrhau bod y wybodaeth ar y cais am swydd wag yn cael ei llenwi'n awtomatig ar yr hysbyseb, pan hysbysebir y swydd wag. Mae hyn yn dileu'r elfen â llaw o orfod ychwanegu brawddeg at bob hysbyseb, gan ddileu'r risg o beidio ag arddangos y lefel o sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer y rôl.

Wrth hysbysebu swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, bydd y Brifysgol yn ystyried defnyddio gwefannau recriwtio Cymraeg. Yn ystod y cam cyfweliad, mae o leiaf un aelod o'r panel dethol yn siaradwr Cymraeg rhugl ac yn gofyn o leiaf un cwestiwn i'r ymgeisydd yn y Gymraeg, gan ofyn am ymateb yn y Gymraeg.

Mae ein ffurflen gais yn darparu lle i ymgeiswyr nodi a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, neu mewn unrhyw ddull asesu arall. Mae hefyd yn egluro y byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu, os oes angen.

Pan fyddwn yn cynnig swydd newydd, gofynnwn i'r unigolyn a ydynt yn dymuno derbyn unrhyw ohebiaeth ffurfiol, gan gynnwys y contract cyflogaeth, yn y Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, fe wnaethom hysbysebu swyddi newydd a gwag (fel y manylir isod):

| **01/08/2024 i 31/07/2025** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Academaidd** | **Gwasanaethau Proffesiynol** | **Cyfansymiau** |
| Cymraeg Hanfodol | 5 | 2 | **7** |
| Cymraeg Dymunol | 66 | 107 | **173** |
| Cymraeg ddim yn ofynnol | 0 | 0 | **0** |
| Cyfanswm yr hysbysebion | | | **180** |

**<u>Sgiliau Cymraeg</u>**

Drwy system Adnoddau Dynol y Brifysgol, mae sgiliau Cymraeg staff newydd yn cael eu cofnodi ac mae arolygon staff yn cael eu cynnal drwy'r system hon sy'n gofyn am lefelau iaith staff presennol y Brifysgol. Hyd at yr adroddiad hwn, rydym wedi cofnodi lefelau Cymraeg tua 50% o staff, a gellir gweld y canlyniadau isod.

Staff Academaidd

| | Lefel Siarad - Nifer | Lefel Gwrando - Nifer | Lefel Darllen - Nifer | Lefel Ysgrifennu - Nifer |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 0 | 60 | 53 | 56 | 71 |
| Lefel 1 | 43 | 42 | 44 | 34 |
| Lefel 2 | 8 | 13 | 8 | 5 |
| Lefel 3 | 3 | 5 | 4 | 4 |
| Lefel 4 | 5 | 4 | 6 | 5 |
| Lefel 5 | 10 | 12 | 11 | 10 |
| **Cyfanswm** | **129** | **129** | **129** | **129** |

Staff Proffesiynol

| | Lefel Siarad - Nifer | Lefel Gwrando - Nifer | Lefel Darllen - Nifer | Lefel Ysgrifennu - Nifer |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 0 | 74 | 74 | 70 | 91 |
| Lefel 1 | 57 | 55 | 57 | 46 |
| Lefel 2 | 15 | 11 | 19 | 15 |
| Lefel 3 | 15 | 15 | 10 | 15 |
| Lefel 4 | 8 | 9 | 12 | 5 |
| Lefel 5 | 11 | 16 | 12 | 6 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **180** | **180** | **180** | **180** |

## Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Gwella

Ers 2022 mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i ddatblygu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog drwy ei strategaeth - CYFLE. Adroddir diweddariadau rheolaidd ar CYFLE i bwyllgorau allweddol yn y brifysgol. Newidiodd strwythur y pwyllgorau ym Mhrifysgol Wrecsam yn ystod y flwyddyn academaidd hon ac o ganlyniad, mae'r hyn a oedd yn Bwyllgor Monitro'r Gymraeg wedi newid i Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg, ac mae'r pwyllgor hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â strategaeth CYFLE. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, gwnaed newidiadau i strwythurau'r pwyllgorau ym Mhrifysgol Wrecsam ac mae CYFLE bellach yn adrodd i Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg, y Pwyllgor Ymgysylltu Allanol ac i'r Bwrdd Academaidd, yn ogystal â Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Yn ystod 2025, lansiodd Prifysgol Wrecsam ei gweledigaeth a'i strategaeth newydd ar gyfer 2030. Mae'r strategaeth newydd yn amlinellu ein nodau o ran creu profiad myfyrwyr rhagorol, cryfhau ein rôl yng Nghymru a thu hwnt, a sbarduno ymchwil ac arloesedd effeithiol drwy:

- Ddarparu Profiad Rhagorol sy'n Canolbwyntio ar y Myfyriwr
- Bod yn Brifysgol Angor a Goleufa Cymru
- Sbarduno Arloesedd a Thrawsnewidiad Llwyddiannus

Themâu allweddol ein strategaeth newydd yw:

- Ein Profiadau a'n Cyfleoedd i Fyfyrwyr.
- Ein Pobl, Lleoedd a'n Partneriaethau.
- Ein Hymchwil a Menter.

Yn rhedeg drwy'r themâu hyn mae ein hymrwymiad i Dreftadaeth a Diwylliant y Gymraeg. Mae'r ymrwymiad hwn i Ddiwylliant a Threftadaeth y Gymraeg nid yn unig yn cyfoethogi ein partneriaethau yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, ond mae'n cryfhau ein hymdeimlad o gymuned. Wrth i ni weithio tuag at ein gweledigaeth 2030, byddwn yn parhau i sicrhau bod ein treftadaeth Gymreig yn rhan sylfaenol o Brifysgol Wrecsam - gan fynd ati i hyrwyddo iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru trwy ein cyrsiau a'n gweithgareddau. O ganlyniad, bydd CYFLE bellach yn strategaeth sy'n eistedd o dan ein Gweledigaeth a Strategaeth 2030 newydd ar gyfer Prifysgol Wrecsam, ac mae wedi'i hailgynllunio i gynnwys trosolwg ehangach o'r Gymraeg ac i wella ymhellach ein hawydd i dyfu a datblygu cyfleoedd, gwasanaethau a darpariaeth ym Mhrifysgol Wrecsam.

- Darpariaeth
- Sgiliau'r Gymraeg i staff a myfyrwyr
- Diwylliant Cymraeg a dwyieithog y brifysgol
- Gwasanaethau
- Graddedigion Dwyieithog Hyderus
- Wrecsam, Cymru, a'r Byd

Yn ogystal, cwblhawyd adolygiad a diweddariad blynyddol ar ddarpariaeth y Gymraeg ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2024, ochr yn ochr ag adolygiad canol blwyddyn ddiwedd mis Mai 2025. Cwblhawyd adolygiad o'r ddarpariaeth ryngbroffesiynol mewn Iechyd hefyd ym mis Mehefin 2025.

Ar ddiwedd pob semester gofynnwyd i staff ym Mhrifysgol Wrecsam gofnodi unrhyw weithgaredd cyfrwng Cymraeg o fewn eu rhaglenni. https://forms.office.com/e/6chzaQ0zRg

**Credydau Cyfrwng Cymraeg**

Cynigir deugain credyd drwy gyfrwng y Gymraeg bellach ar y rhaglen Therapi Iaith a Lleferydd, a'r rhaglen hyfforddi Pêl-droed. Cynigir ugain credyd ar raglenni Perthynol i Iechyd, gan gynnwys Therapi Galwedigaethol, Ffisiotherapi ac Ymarferion Llawfeddygol, bellach yn cynnig modiwlau dysgu seiliedig ar waith drwy gyfrwng y Gymraeg. Eleni hefyd gwelwyd datblygiadau ynghylch darpariaeth y Gymraeg mewn Addysg ac mewn Nyrsio.

Lansiodd Cyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd eu rhaglen Sylfaen yn 2024, gan gynnwys modiwlau Cymraeg, ac mae Cyfadran y Celfyddydau Cyfrifiadura a Pheirianneg yn datblygu modiwlau ar gyfer 2025.

Ers dechrau blwyddyn academaidd 2023/24, mae'n ofynnol i fyfyrwyr ar y radd Plismona Proffesiynol ym Mhrifysgol Wrecsam gwblhau'r modiwl Cymraeg yn y Gweithle fel rhan o'u hastudiaethau. Llwyddodd pymtheg o fyfyrwyr i gyflawni cymhwyster Lefel 2 Cymraeg yn y Gweithle. Bydd hyn yn eu helpu i baratoi ar gyfer gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru lle mae hyn yn ofyniad proffesiynol. Mae Prifysgol Wrecsam wedi gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru ar ddatblygu'r ddarpariaeth hon ac ar gyfer 2024/25 mae hyn yn cael ei ymestyn i fyfyrwyr y Gyfraith a Throseddeg hefyd.

Crëwyd cwrs byr gan y tîm Addysg i baratoi ar gyfer yr Eisteddol Genedlaethol, modiwl 20 credyd o'r enw 'Croesawu'r Eisteddfod'. Arweiniodd y gwaith hwn at gydweithio â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol lle defnyddiwyd adnoddau Prifysgol Wrecsam i gefnogi eu paratoadau ar gyfer ymweliad yr Eisteddol Genedlaethol yn Wrecsam.

**Modiwl Ymwybyddiaeth Iaith ar Waith**

Ym mis Ionawr 2024, arweiniodd dau o'r Tîm Datblygu Academaidd y diwrnod ymwybyddiaeth iaith rhyngbroffesiynol cyntaf mewn Iechyd a Nyrsio. Roedd y digwyddiad, o'r enw 'Gofal ac Iaith Law yn Llaw' yn cynnwys mwy na dau gant o fyfyrwyr Nyrsio a Pherthynol i Iechyd yn cymryd rhan mewn Diwrnod Addysg Rhyngbroffesiynol cydweithredol - gyda ffocws ar y Gymraeg o fewn lleoliadau gofal iechyd. Roedd y digwyddiad yn cynnwys sgyrsiau gan gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Roedd y diwrnod yn cynnwys cynhadledd foreol gyda siaradwyr o'r Bwrdd Iechyd a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac yn y prynhawn roedd y carfannau'n gallu rhwydweithio â myfyrwyr eraill a darganfod mwy am y gwahanol ddisgyblaethau Perthynol i Iechyd, yn ogystal â manteisio ar y cyfle i siarad ag amrywiol sefydliadau, fel y Fenter Iaith, Coleg Cambria a Thiwtor Cymraeg y Brifysgol, Teresa Davies. Roedd myfyrwyr hefyd yn gallu dysgu mwy am ddosbarthiadau a chymdeithasau Cymraeg i ymarfer yr iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Roedd sesiwn y prynhawn yn cynnwys myfyrwyr yn cymryd gwersi byr yn y Gymraeg, yn seiliedig ar eu gallu, gyda'r nod o gynyddu eu hyder, ac ehangu eu geirfa sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

O ganlyniad i lwyddiant y diwrnod hwn, gwelsom gyfle i ddatblygu'r profiad dysgu arloesol hwn yn fodiwl ffurfiol sy'n cynnig credydau. Ym mis Mehefin 2025 lansiwyd y modiwl

Ymwybyddiaeth Iaith ar Waith ar gyfer pob myfyriwr Perthynol i Iechyd, a chwblhaodd 85 y modiwl 20 credyd a oedd yn canolbwyntio ar rag-waith a gwaith dilynol ar Moodle.

## Cynllun Cymraeg yn y Gwaith

Cymeradwywyd cyllid ar gyfer cynllun Cymraeg yn y Gwaith 2024/25 gan y Ganolfan Iaith, ac o ganlyniad mae'r Brifysgol bellach yn gallu darparu pum lefel o astudiaeth o'r Gymraeg i'r holl staff. Cymerodd chwe deg chwech aelod o staff ddiddordeb yn y cyrsiau eleni. Fel rhan o'r cynllun, mae'r Brifysgol yn cynnal bore coffi 'Coffi a Chlonc' bob dydd Mercher cyntaf o bob mis, gyda nifer dda o staff yn bresennol, ac mae'r sesiynau hyn bellach yn cysylltu'n uniongyrchol â gweithgareddau dysgu'r staff sy'n dilyn y cynllun Cymraeg yn y Gwaith. Recriwtiodd Prifysgol Wrecsam diwtor sgiliau Cymraeg newydd hefyd, sy'n gyfrifol am ddarparu cefnogaeth Academaidd sgiliau Cymraeg i fyfyrwyr.

## Cymraeg yn y Gweithle

Mae'r llwybrau hyn wedi'u cynllunio ar gyfer pob myfyriwr yn y Brifysgol ac maent yn cynorthwyo myfyrwyr i wella eu sgiliau Cymraeg wrth astudio ym Mhrifysgol Wrecsam. Mae'r llwybrau hyn yn rhad ac am ddim i bob myfyriwr sy'n astudio ym Mhrifysgol Wrecsam.

## Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Sefydlwyd cangen 'Coleg Cymraeg' y Brifysgol (Cangen Wrecsam) yn 2022 ac mae'n dal i ffynnu. Mae'r gangen yn gyfle i drafod materion academaidd 'Coleg Cymraeg' gyda staff a myfyrwyr y Brifysgol. Mae croeso i bawb i'r cyfarfodydd ond mae aelodaeth graidd sefydledig o staff Cymraeg (gweithredol ac academaidd), yn ogystal â chynrychiolaeth myfyrwyr bellach wedi'i sefydlu. Cynhelir pum cyfarfod cangen yn ystod y calendr academaidd.

Mae Bwrdd Academaidd y 'Coleg Cymraeg' yn fforwm ar gyfer clywed llais y gymuned academaidd addysg uwch ac i gynghori ar weithgareddau yn y sector. Mae'r aelodaeth yn cynnwys: y Cadeirydd, cynrychiolwyr o gymunedau myfyrwyr a staff; darparwyr (unigolion â chyfrifoldebau strategol am y Gymraeg o fewn eu sefydliad); aelodau cyfetholedig. Cynrychiolwyr Prifysgol Wrecsam ar y bwrdd yw Elen Mai Nefydd (Pennaeth Datblygu'r Gymraeg), Awel Wynne Williams (Darlithydd Nyrsio Plant) a Ffion Roberts (Darlithydd mewn Lleferydd ac Iaith a hyrwyddwr y Gymraeg dros Iechyd) a Llio Owen (cynrychiolydd myfyrwyr).

## Adnoddau Efelychu'r Gymraeg

Llwyddodd Prifysgol Wrecsam i sicrhau cais gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu adnoddau efelychu'r Gymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y prosiect hwn, dan arweiniad Prifysgol Wrecsam mewn partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, yn arwain at adnoddau dysgu newydd i ddysgwyr Iechyd yng Nghymru.

## Tystysgrif Sgiliau Cymraeg y Coleg Cymraeg

Mae tystysgrif sgiliau Cymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cael ei hyrwyddo i bob myfyriwr sy'n rhugl yn y Gymraeg. Cyflwynodd Elen Mai Nefydd dystysgrifau i fyfyrwyr o Brifysgol Wrecsam a ddilynodd y dystysgrif y llynedd – Elen Keen o Ffisiotherapi a Becky Davies o Nyrsio Plant.



**Llysgenhadon y Coleg Cymraeg**

Yn flynyddol mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn galw am lysgenhadon Cymraeg o bob prifysgol yng Nghymru. Ar gyfer 2024/25, cafodd Lottie Edwards o Drosedddeg ei derbyn ar gynllun Llysgenhadon y Coleg Cymraeg, gan gynrychioli'r radd Troseddeg yn y brifysgol a Phrifysgol Wrecsam yn genedlaethol drwy gyfrwng y Gymraeg.






## Digwyddiadau

Dros 2024/25 mae'r Brifysgol wedi cynnal amryw o ddigwyddiadau mewnol ac allanol i hyrwyddo ei gwaith ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, y gellir eu gweld isod.

## Sgriblwyr y Gelli

Cynhaliodd Prifysgol Wrecsam ail ddigwyddiad Cymraeg 'Sgriblwyr y Gelli', gyda siaradwyr allanol yn ogystal â chyflwyniadau gan swyddog cangen y Coleg Cymraeg.



## Seremonïau Graddio

Cynhaliwyd 2 Seremoni Raddio yn ystod blwyddyn academaidd 2024-25, ym mis Hydref ac Ebrill. Cynhaliwyd y ddwy seremoni yn ddwyieithog, gyda'r cyflwyniad yn cael ei agor yn y Gymraeg gan Areithydd y Brifysgol.

## Darlithoedd Cyhoeddus Sgyrsiau Ymchwil Wrecsam

Mae Darlithoedd Cyhoeddus Sgyrsiau Ymchwil Wrecsam yn gyfres o ddarlithoedd gyda'r nos am ddim ar y campws a gynhelir gan y Swyddfa Ymchwil, ac maent ar agor i bawb. Mae Sgyrsiau Ymchwil Wrecsam yn rhan allweddol o wyneb cyhoeddus Prifysgol Wrecsam, a phwrpas y darlithoedd yw gwahodd trafodaeth a dadl mewn amrywiaeth o feysydd pwnc sy'n ysgogi'r meddwl. Mae'r Brifysgol yn ymfalchïo mewn ymchwil gymhwysol, ymchwil sy'n trawsnewid, ac ymchwil sy'n cael effaith.

Mae holl ddeunyddiau marchnata Sgyrsiau Ymchwil Wrecsam yn ddwyieithog, gan gynnwys llyfrynnau cyfres, posteri, baneri, tudalen Eventbrite, e-byst, baneri e-bost, a'r wefan. Mae'r Swyddfa Ymchwil yn ymdrechu i ddarparu Siaradwr Cymraeg mewn Darlithoedd Cyhoeddus i sicrhau y gall aelodau'r gynulleidfa ofyn cwestiwn yn y Gymraeg ar ddiwedd y Ddarlith. Mae pob darlith gyhoeddus yn cael ei recordio ac ar gael ar Wefannau'r Brifysgol gyda thrawsgrifiad Cymraeg.


**<u>Digwyddiadau Cyhoeddus Cymraeg</u>**

Noson lwyddiannus yn croesawu Lili Jones o Glwb Pêl-droed Wrecsam mewn sgwrs gydag Elen Mai Nefydd. Cefnogwyd y noson gan sefydliadau fel Menter Iaith Fflint a Wrecsam, Urdd Gobaith Cymru ac Amgueddfa Bêl-droed Cymru.



**Diwrnod Shwmae/Su'mae**

Cymerodd Prifysgol Wrecsam ran yn 'Diwrnod Shwmae/Sumae' ym mis Hydref 2024. Mae'r diwrnod wedi'i gynllunio i hyrwyddo'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda shwmae, su'mae neu shwdi! Nod y digwyddiad yw dangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb – siaradwyr rhugl, dysgwyr neu'r rhai sy'n swil gyda'u Cymraeg ac mae'n annog dysgwyr Cymraeg i 'roi cynnig arni' – beth bynnag yw eu gallu. Dethlir y Diwrnod bob blwyddyn ar 15 Hydref.






Ymgyrch Defnyddia Dy Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg

Cynhaliwyd ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg' rhwng 25 Tachwedd a 9 Rhagfyr 2024. Pwrpas yr ymgyrch hon oedd annog siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o bob cwr o Gymru i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd - yn y gwaith, gyda'r teulu, gyda chydweithwyr, wrth fynd i'r siop, wyneb yn wyneb neu ar-lein.

Nod yr ymgyrch yw codi hyder, a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg. Canolbwyntiwyd ar y sector iechyd a gofal, a chefnogodd Prifysgol Wrecsam yr ymgyrch drwy bostio ffilmiau byr a thystiolaethau gan staff a myfyrwyr y brifysgol. Dechreuodd yr ymgyrch ar 25 Tachwedd gyda bore coffi – Bore Hoffi Coffi i godi arian ar gyfer yr Eisteddol Genedlaethol ac i ddathlu 250 diwrnod tan Eisteddfod Wrecsam 2025.



**Gŵyl yr Haf**

Cynhaliwyd *Gŵyl yr Haf y Coleg Cymraeg* ym Mhrifysgol Wrecsam fis Mehefin ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 11 ac 12 a oedd yn astudio'r Gymraeg fel ail iaith.




## Dydd Gŵyl Dewi

Ar 1 Mawrth, roedd Prifysgol Wrecsam yn falch o gymryd rhan yng ngorymdaith flynyddol Dydd Gŵyl Dewi yn Wrecsam, gan gynrychioli'r Brifysgol o fewn y gymuned.




## Dydd Miwsig Cymru

Cynhaliodd Prifysgol Wrecsam ddigwyddiad gwych yn y brif dderbynfa, ar 7 Chwefror i ddathlu Dydd Miwsig Cymru. Roedd y Brifysgol yn falch o groesawu'r gitarydd a'r canwr Andy Hickey, yng nghwmni stondin karaoke Cymraeg dan arweiniad Olivia Neen. Cymerodd staff a myfyrwyr ran mewn canu caneuon rhugl yn y Gymraeg, a chaneuon wedi'u cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Croesawodd y digwyddiad hwn hefyd gylchgrawn Golwg, i gofnodi dathliad llwyddiannus o'r Gymraeg.

## Grŵp Llywio'r Eisteddfod

Sefydlodd y Brifysgol Grŵp traws-sefydliadol Llywio'r Eisteddfod, gan ddod â chynrychiolwyr o bob adran ynghyd i gydlynu cyfraniad Prifysgol Wrecsam at yr Eisteddfod. Roedd y grŵp yn gyfrifol am lunio a chyflwyno rhaglen amrywiol a diddorol o weithgareddau sy'n arddangos

cryfderau'r Brifysgol ym maes y Gymraeg, treftadaeth, diwylliant, ymchwil ac ymgysylltu cymunedol. Trwy gynllunio cydweithredol a chyfranogiad eang gan adrannau, mae'r Grŵp Llywio yn sicrhau presenoldeb bywiog, cynhwysol a chydlynol y Brifysgol drwy gydol cyfnod yr Eisteddfod yn Wrecsam yn 2025.

Gweler y rhaglen o ddigwyddiadau a grëwyd gan y grŵp ar gyfer yr Eisteddfod:

Schedule Cymraeg.pdf

## Gŵyl yr Hydref

Chwaraeodd Prifysgol Wrecsam ran bwysig wrth groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol yn ffurfiol i'r ardal drwy ei chyfranogiad yng Ngŵyl yr Hydref, gŵyl ddeuddydd gyda'r nod o ymgysylltu â'r gymuned leol a chodi ymwybyddiaeth o'r Eisteddfod sydd ar ddod. Darparodd staff y brifysgol gefnogaeth ymarferol drwy gydol y digwyddiad, gan gyfrannu at weithgareddau a oedd yn dathlu diwylliant a chreadigrwydd lleol. Fel rhan o'r ŵyl, trefnodd yr Ysgol Gelf gystadleuaeth liwio ar gyfer ysgolion cynradd lleol, gan annog plant i archwilio themâu artistig sy'n gysylltiedig â'r Eisteddfod. Arddangoswyd y gwaith celf dilynol â balchder o amgylch Tŷ Pawb drwy gydol yr ŵyl, gan greu arddangosfa fywiog o gyfranogiad cymunedol.




## Parti Adrodd yr Eisteddfod Genedlaethol

Penodwyd Elen Mai Nefydd yn Is-gadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2023, gyda chyfrifoldeb penodol am arwain a llunio ei phortffolio diwylliannol. Yn y rôl hon, chwaraeodd ran allweddol wrth gryfhau cyfleoedd i gymryd rhan ac ehangu ymgysylltiad â diwylliant y Gymraeg. Gan adeiladu ar lwyddiant cynllun Cymraeg yn y Gwaith y brifysgol a chydnabod gwerth meithrin hyder ieithyddol a diwylliannol ymhlith staff a myfyrwyr, helpodd i sefydlu parti adrodd i ddysgwyr. O ganlyniad, ffurfiwyd Parti Prifysgol Wrecsam, ensemble a

gefnogodd nid yn unig ddysgwyr ar eu taith iaith ond a gyfrannodd yn ystyrlon at fywyd diwylliannol lleol. Aeth y parti ymlaen i gofrestru'n ffurfiol i gystadlu yn Eisteddfod Wrecsam.

## Noddi Maes B

Yn 2025, cyhoeddwyd mai Prifysgol Wrecsam fyddai prif noddwr Maes B, yr ŵyl gerddoriaeth gyfoes cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc sy'n digwydd ochr yn ochr â'r Eisteddfod Genedlaethol. Cadarnhaodd y bartneriaeth hon ymrwymiad y Brifysgol i gefnogi diwylliant y Gymraeg a buddsoddi mewn cyfleoedd creadigol i'r genhedlaeth nesaf. Fel prif noddwr, chwaraeodd y Brifysgol rôl amlwg wrth hyrwyddo ymgysylltiad ieuenctid, cerddoriaeth gyfoes Cymru, ac effaith ddiwylliannol ehangach yr Eisteddfod.




## Anrhydedd Gorsedd y Beirdd

Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddwyd y byddai Elen Mai Nefydd yn cael ei hanrhydeddu yng Ngorsedd y Beirdd yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam Bangor Is-y-coed, Awst 2025. Mae Elen Mai Nefydd wedi cael ei chydnabod am ei chyfraniad i'r sector dros y 25 mlynedd diwethaf yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â denu cynulleidfaoedd newydd i'r Gymraeg a'r Eisteddfod.

Mae hi'n un o nifer ddethol o unigolion sydd wedi cael eu cydnabod o bob rhan o'r wlad am eu cyflawniadau a'u hymrwymiad i Gymru, yr iaith a'u cymunedau lleol.

## Wythnos y Glas/Undeb y Myfyrwyr

Hyrwyddwyd digwyddiadau Cymraeg a dwyieithog i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Wrecsam yn ystod Wythnos y Glas. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys cyflwyniad ffurfiol gan Bennaeth Datblygu'r Gymraeg ar y cyfleoedd Cymraeg sydd ar gael, bore coffi anffurfiol, a digwyddiad Bingo Cymraeg/dwyieithog.

## Rhagor o Wybodaeth/Rhoi Adborth

Am ragor o wybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth y Brifysgol â Safonau'r Gymraeg, neu os hoffech roi adborth adeiladol i ni ynghylch ein darpariaeth Cymraeg, cysylltwch â'r cyfeiriad e-bost canlynol: welshcompliance@wrexham.ac.uk